
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	17.03.23
Pwnc / Subject:	Ymgynghoriad ar y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru)

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Rydym yn cefnogi nod y Bil, at ei gilydd, i wneud addysg awyr agored breswyl yn hawl gan y bydd llawer o fuddion i ddysgwyr.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion mewn ardaloedd mwy cefnog ddwywaith yn fwy tebygol o gynnig profiadau o'r fath, a bydd deddfwriaeth yn helpu mynd i'r afael â'r annhegwch sylweddol hwn a gwella'r profiad addysg i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel yng Nghymru yn benodol.

Rydym yn meddwl y gellid rhoi mwy o ystyriaeth i eiriad yr hawl i ystyried ffactorau sy'n effeithio ar ddysgwyr ac ysgolion fel ei gilydd.

Ydych chi'n cyflwyno'r ymateb hwn mewn rhinwedd broffesiynol neu bersonol?:

<input checked="" type="checkbox"/> Rhinwedd broffesiynol (gan gynnwys ar ran sefydliad)	<input type="checkbox"/> Rhinwedd bersonol
Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad? <input checked="" type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw	Oedran: <input type="checkbox"/> Rydw i o dan 13 oed <input type="checkbox"/> Rydw i rhwng 13 ac 17 oed <input type="checkbox"/> Rydw i'n 18 oed neu'n hŷn ac yn dymuno i'm cyfraniad fod yn ddienw <input type="checkbox"/> Rydw i'n 18 oed neu'n hŷn ac yn hapus i'm henw gael ei gyhoeddi gyda'm cyfraniad
Ydych chi (eich sefydliad) yn ddarparwr addysg awyr agored ar hyn o bryd? <input type="checkbox"/> Ydym <input checked="" type="checkbox"/> Nac ydym	Ym mha rinwedd ydych chi'n ymateb? <input type="checkbox"/> Plentyn / Person ifanc <input type="checkbox"/> Rhiant / Gofalwr <input type="checkbox"/> Arall

Os ydych chi'n weithiwr proffesiynol, neu'n ddarparwr addysg awyr agored, eich rôl ac enw'r sefydliad yr ydych yn ymateb ar ei ran:

Click or tap here to enter text.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Pa mor bwysig yw addysg awyr agored i addysg a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc?

- Pwysig iawn
- Eithaf pwysig
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn bwysig iawn
- Ddim yn bwysig o gwbl

2. Beth yw'r prif fuddion i blant a phobl ifanc o gael profiad addysg agored preswyl? Rhestrwch y tri phrif fudd i chi:

Cynhaliodd Becker et al astudiaeth meta o ymchwil i effeithiolrwydd dysgu awyr agored a chanfu fod pob un ar wahân i 13 o 7830 astudiaeth 'yn dioddef yn sgil cynllun astudio gwael a diffyg trylwyredd methodolegol'¹. O'r dystiolaeth ddibynadwy sydd ar gael, daeth Jucker a von Au i'r casgliad yn ddiweddar fod 'dysgu awyr agored ... yn hyrwyddo prosesau dysgu ac iechyd yn gynyddol ar saith lefel wahanol:

- Llwyddiant dysgu academaidd: galw cynnwys dysgu i gof yn well, cymhwysedd iaith gwell (darllen, ysgrifennu, siarad ag oedolion, geirfa), datrys tasgau cymhleth, cydgysylltiedig yn well, medrau rhesymu a dadansoddol gwell.
- Cymwyseddau cymdeithasol: rhyngweithio cymdeithasol, cydlyniant ac ymddiriedaeth gryfach rhwng athrawon a myfyrwyr, datblygiad emosiynol-gymdeithasol cadarnhaol, gan gofio fod cymuned ddysgu weithredol rhwng athrawon a myfyrwyr yn amod canolog ar gyfer dysgu llwyddiannus.
- Hunangymwyseddau: Cymhelliant a pharodrwydd cynhenid cynyddol i ddysgu, canolbwyntio'n well, llai o broblemau disgyblu, profiad hunaneffeithiolrwydd uchel trwy ddarganfod, dysgu wedi'i seilio ar brofiad ac sydd â gogwydd gweithredu, meithrin ymdeimlad o hunaniaeth, datblygu ymddygiad rhag-gymdeithasol a gweithrediad gweithredu personol trwy fentro.
- Iechyd corfforol ac iechyd meddwl: Mae athrawon a dysgwyr yn symud cryn dipyn yn fwy, sy'n gwneud dysgu yn fwy llwyddiannus ac yn golygu bod cynnwys dysgu ar gael yn y tymor hir, hyfforddiant medrau echddygol bras a manwl, cyfle haws i gael golau dydd ac awyr iach na mewn ystafelloedd dosbarth, mae problemau emosiynol ac ymddygiadol yn ogystal â gorfywiogrwydd gryn dipyn yn llai, yn enwedig ymhlith bechgyn.
- Dysgu byd go iawn: Dysgu cyfoethog ac ystyrion mewn sefyllfaoedd byd go iawn, mae gwahanol ofodau dysgu yn diwallu anghenion dysgu amrywiol plant mewn amrywiaeth o ffyrdd, sy'n fwyfwy pwysig mewn dosbarthiadau sy'n gynyddol amrywiol.

¹ Becker, C., Lauterbach, G., Spengler, S., Dettweiler, U., & Mess, F. (2017). Effects of regular classes in outdoor education settings: A systematic review on students' learning, social and health dimensions. *International Journal of Environmental Research and Public Health*, 14(5), 1–20. <https://doi.org/10.3390/ijerph14050485>

- Medrau yn yr unfed ganrif ar hugain: Caiff cyfathrebu, cydweithredu, datrys gwrthdaro, dawn greadigol, meddwl yn feirniadol, gwydnwch, hunanreoleiddio, delio â digwyddiadau annisgwyl a meddwl yn gymhleth, eu meithrin.
- Bod yn gyfarwydd â natur: Mae bod yn agos at natur a delio'n adeiladol â difrodi natur yn arwain at ymwybyddiaeth amgylcheddol gynyddol a gweithredu cynaliadwy.²

Nid yw'r buddion hyn wedi'u rhestru yn eu trefn a byddant yn dibynnu, er enghraifft, ar gyd-destun profiad addysg awyr agored preswyl, y gweithgareddau dan sylw ac oedran a chyfnod datblygu'r dysgwr. Heb ystyried llwyddiant neu fethiant y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) hwn, mae'n werth nodi y gellir cael llawer o fuddion trwy ymweliadau dydd a thrwy ddefnydd rheolaidd o'r awyr agored fel y cyd-destun ar gyfer dysgu.

Mae'r cynnig yn amlinellu sut mae'n cefnogi cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, ac rydym yn cytuno â hyn.

3. A ddylai plant a phobl ifanc gael cyfle gwarantedig i gymryd rhan mewn profiad addysg awyr agored preswyl, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol, os ydynt yn dymuno?

- Dylen
- Na ddylen
- Ddim yn gwybod

4. A ddylai cyfle i gymryd rhan mewn profiad addysg awyr agored preswyl, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol, fod yn rhad ac am ddim ar un achlysur i ddisgyblion?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

5. Beth yw'r prif rwystrau rydych chi'n credu sy'n bodoli ar hyn o bryd i blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn profiadau addysg awyr agored preswyl? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Cyfyngiadau ariannol
- Rhesymau iechyd
- Anableddau
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Gorbryder / ansicrwydd rhieni
- Gorbryder / ansicrwydd plant
- Arall (Nodwch) Y rhwystr cyntaf yw'r ffaith nad oes cyfle yn cael ei ddarparu gan ysgol i ddisgyblion elwa ar brofiadau addysg agored preswyl

² Jucker, R. a von Au, J. (Editors) (2022). High-Quality Outdoor Learning: Evidence-based Education Outside the Classroom for Children, Teachers and Society, tud.11-12. <https://doi.org/10.1007/978-3-031-04108-2>

- Dim

6. Ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb:

A allai'r Bil arfaethedig gael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar rai plant a phobl ifanc yn arbennig? Os felly, pwy a pham?

Bydd yr effeithiau cadarnhaol a nodwyd yng nghwestiwn 2 yn berthnasol i'r holl blant. Efallai bod rhai grwpiau o blant, er enghraifft y rhai o deuluoedd incwm isel, yn cael llai o brofiadau y tu allan i'r ysgol a allai gael effeithiau cadarnhaol tebyg.

A allai'r Bil arfaethedig gael unrhyw effeithiau negyddol ar rai plant a phobl ifanc yn benodol? Os felly, pwy a pham? Beth allai'r Bil hwn ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol hysbys i brofiadau addysg awyr agored preswyl, ar wahân i unrhyw risg sy'n weddill sy'n gynhenid yn y gweithgareddau a wneir. Rhaid asesu risg gweithgareddau awyr agored, a rhaid iddynt gael eu harwain gan ddarparwyr cymwys a thrwyddedig addas.

Byddai effaith negyddol o bosibl ar ddysgwyr nad ydynt yn gallu cymryd rhan yn y profiadau addysg awyr agored preswyl ochr yn ochr â'u cyfoedion. Bydd angen i ysgolion sicrhau nad yw profiadau addysg awyr agored preswyl yn eithrio unrhyw ddysgwyr oherwydd anabledd, cyflwr iechyd, angen dysgu ychwanegol neu gofnod ymddygiad oni bai fod hyn yn mynd yn erbyn cyngor proffesiynol.

7. Pa oedran ydych chi'n credu sydd fwyaf addas i blant a phobl ifanc gael cynnig cyfle i ymgymryd â phrofiad addysg awyr agored preswyl?

- Blwyddyn 6 (10-11 oed)
- Iau (nodwch)
- Hŷn (nodwch)
- Dim ar unrhyw oedran

Nid yw buddion profiadau addysg awyr agored preswyl yn unigryw i grŵp oedran penodol. Bydd y buddion i ddysgwyr yn amrywio yn ôl eu cyfnod datblygu.

Er enghraifft, mae un astudiaeth yn amlygu buddion defnyddio profiadau addysg awyr agored preswyl ar ddechrau Blwyddyn 7. Canfu Allan, 'O gymharu â gweithgareddau ymsefydlu yn yr ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7, mai profiadau preswyl yn yr awyr agored sy'n canolbwyntio ar y medrau sydd eu hangen am oes yn yr ysgol uwchradd sy'n sicrhau'r raddfa gryfaf o newid yn lles seicolegol disgyblion.'³

8. Ai pedair noson / pum niwrnod yw'r hyd gorau ar gyfer profiad awyr agored preswyl?

³ Allan, J., McKenna, J., Buckland, H., Bell, R. (2014) Getting the right fit: Tailoring outdoor adventure residential experiences for the transition of schoolchildren, *Physical Education Matters*, 8, 37-42.

- Ie
- Na
- Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb ac amlygu unrhyw oblygiadau posibl o gael ymagwedd safonol o brofiadau pedair noson / pum niwrnod (p'un a yw'n gadarnhaol neu'n negyddol).

Gallai gofyn am un profiad am bedair noson fod yn gyfyngedig. Gallai ymddangos yn gyfnod rhy hir oddi cartref i ddysgwyr nad ydynt wedi aros oddi cartref o'r blaen ac sy'n cael trafferth â thrawma neu orbryder. Hefyd, gallai fod yn anodd i ysgolion drefnu wythnos lawn yn hytrach nag arhosiad byr, yn rhannol oherwydd yr effaith ar staff.

Mater ar wahân gyda gofyniad cyffredinol am un arhosiad o bedair noson ar unrhyw oedran yw, gan fod y rhan fwyaf o ddarparwyr addysg gynradd ac uwchradd yn cael eu llywodraethu'n annibynnol ar ei gilydd, gallai fod anghytuno ynglŷn â pha ddarparwr ddylai fod yn cynnig y profiad preswyl.

Un dewis arall fyddai gofyn am isafswm profiad am ddim yn ystod blynyddoedd cynradd o ddwy noson / tridiau ac isafswm profiad am ddim yn ystod blynyddoedd uwchradd o ddwy noson / tridiau.

Byddai hyn yn sicrhau o hyd fod yr holl ddysgwyr yn cael pedair noson o brofiadau addysg awyr agored preswyl yn ystod eu gyrfa ysgol, ond gallai wneud y profiadau hyn yn fwy hygyrch i'r holl ddysgwyr, yn haws i ysgolion drefnu a chynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd mewn integreiddio profiadau dysgu awyr agored preswyl yn eu cwricwlwm.

9. Ydych chi'n cytuno bod angen deddfwriaeth i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael cyfle i elwa ar brofiad addysg awyr agored preswyl, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Mae'r nodyn esboniadol i Fil Addysg Awyr Agored (Cymru) yn amlygu, ar sail data gan Banel Cymdeithas Addysg Awyr Agored Cymru, bod 'dwywaith canran y plant sy'n byw yn yr awdurdodau lleol mwyaf cefnog yn mynychu ymweliad preswyl Addysg Awyr Agored o gymharu â'r disgyblion hynny yn yr awdurdodau lleol sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd'. Un o fanteision arwyddocaol y deddfwriaeth yw mynd i'r afael â'r annhegwch nodedig hwn a'r effaith hynod gadarnhaol y bydd yn ei chael ar gyfer dysgwyr o aelwydydd incwm isel.

Wrth siarad am fforddiadwyedd tripiâu preswyl â WalesOnline yn 2022, dywedodd y Prif Arolygydd, Owen Evans: "Byddwn i'n dweud y dylid gwneud y pethau hyn, ond galluogi pawb i gael tro."⁴

10. A oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am y cynnig hwn?

Yn aml, mae ein hadroddiadau arolygu yn cyfeirio'n gadarnhaol at effaith 'tripliau' ond mae hyn yn cynnwys tripiâu dydd ac nid yw'n gysylltiedig ag addysg awyr agored breswyl yn unig. Efallai bydd yr ychydig o enghreifftiau isod o ddiddordeb.

Mae gan [Ysgol Gynradd Crwys](#) yn Abertawe adroddiad cadarnhaol iawn am ddysgu awyr agored yn gyffredinol, yn ogystal â defnyddio profiadau preswyl. Hon oedd yr ysgol gyntaf i ennill gwobr am ei gwaith yn y maes hwn ac mae wedi'i chynnwys mewn gwaith ymchwil gan brosiect Happen Prifysgol Abertawe.

Mae [Ysgol Gyfun Y Bont-faen](#) wedi'i hamlygu am y ffordd y mae'n talu i bob dysgwr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim gymryd rhan mewn trip preswyl yn rhad ac am ddim.

⁴ [Parents' despair over expensive school trips that divide children and leave too many missing out - Wales Online](#) (21 Mehefin 2022)